

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

18 Gorffennaf 2018

Yn Bresennol: Cynghorydd P Baker, Cynghorydd D Clements, Mrs G Hayward, Dr R Heath Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.00pm – 2.00pm)

1. Penodi Cadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi Mr A Archer yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

2. Penodi Dirprwy Gadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd D Clements yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod. Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mr A Archer a'r Cynghorydd P Kidney. Dywedodd y Cynghorydd P Baker y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod am 1.30pm.

4. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23^{ain} o Fai 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23^{ain} o Fai 2018.

6. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2018.

Roedd y cofnodion wedi nodi y bu 1 digwyddiad RIDDOR (Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013) rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2016, a gofynnodd un Aelod a fyddai'r Pwyllgor, petai'r rhain o natur mwy difrifol, yn gallu cael adroddiad am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Atebodd y Prif Weithredwr bod yn rhaid adrodd am ddigwyddiadau a gynhwysir gan RIDDOR i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac roeddent yn dueddol o fod yn ddigwyddiadau lle'r



oedd y person i ffwrdd o'r gwaith am fwy na 5 niwrnod. Roedd rheolwyr wedi adolygu'r digwyddiad dan sylw i arbed hyn rhag digwydd eto. **PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2018.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd P Baker a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad canlynol.]

7. Datganiad Drafft o Gyfrifon 2017/18

Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Datganiad Drafft o Gyfrifon wedi cael ei gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru ar 18 Mehefin a bod eu gwaith yn dal i fynd rhagddo. Roedd y cyfrifon oedd gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth yn unig, ac yn dilyn newidiadau o ganlyniad i drafodaethau gyda'r Archwilwyr, byddai'r cyfrifon hyn yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y 13^{eg} o Awst i'w cymeradwyo, ynghyd ag Adroddiad ISA260: Gohebiaeth ynglŷn â Datganiadau Ariannol i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu.

Roedd y cyfrifon yn ddogfen hir, ond gellid cael y wybodaeth allweddol yn yr adroddiad naratif ac yn y cyfrifon cryno. Aeth y Rheolwr Cyllid rhagddo i arwain yr Aelodau drwy'r adroddiad hwn, gan nodi o dan "O ble ddaeth yr arian" bod y Grant Parc Cenedlaethol wedi cynyddu £700,000 o ganlyniad i arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodol, er nad oedd y cyllid ychwanegol hwn yn denu'r cyfraniad Ardoll arferol. Roedd yr incwm a gynhyrchir yn lleol wedi cynyddu, a rhoddwyd rhagor o fanylion am ffynonellau'r incwm hwn yn yr adroddiad, a bu cynnydd yn y defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Gan droi at "Ar beth y gwariwyd yr arian", roedd gwarged net yn y cyfrif refeniw ac esboniad yn yr adroddiad am y prif amrywiadau o fewn pob gwasanaeth. Hefyd yn yr adroddiad roedd manylion am y rhaglen gyfalaf.

Atebodd y Rheolwr Cyllid nifer o gwestiynau gan yr Aelodau, a diolchwyd iddo am adroddiad cynhwysfawr.

NODWYD.

8. Diweddariad llafar gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y Camau Ymlaen ar y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon

Estynnwyd croeso i Mr Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Dywedodd bod y gwaith archwilio bron â'i gwblhau erbyn hyn a'i fod yn falch iawn o'r camau ymlaen a gymerwyd, yn enwedig o gofio'r absenoldeb salwch yn y tîm cyllid, a diolchodd iddynt am barhau i gyrraedd y safonau uchel a gyrhaeddwyd ganddynt yn y blynyddoedd blaenorol. Dywedodd Mr Evans nad oedd unrhyw fater arwyddocaol i'w adrodd i'r Pwyllgor, ac y byddai'n cynnig i'r Archwilydd Cyffredinol



Cynorthwyol, Anthony Barrett, bod adroddiad diamod yn cael ei gyhoeddi. Dywedodd y byddai'n ofynnol y flwyddyn nesaf, oherwydd newid yn y rheoliadau, i'r Awdurdod lofnodi'r cyfrifon erbyn diwedd mis Gorffennaf, ac felly gofynnodd i'r newid hwn yn y dyddiadau gael ei nodi wrth gytuno ar y calendr o gyfarfodydd yn y dyfodol.

Llongyfarchodd yr Aelodau y Rheolwr Cyllid a'i dîm ar gynhyrchu'r Cyfrifon, a diolchwyd i Mr Evans am ei adroddiad.

NODWYD.

9. Adroddiad Archwilio Mewnol Diwygiedig 2017/18

Atgoffwyd yr Aelodau mai adroddiad oedd hwn oedd yn uno'r adroddiadau Bloc 1 a Bloc 2 a baratowyd gan yr Archwilwyr Mewnol ac a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor yn flaenorol. Roedd yr adroddiad cyfunol wedi'i gyflwyno gerbron y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor pan ofynnwyd cwestiynau gan yr Aelodau ynghylch y farn archwilio ar gyfer Adnoddau Dynol oedd wedi'i ddangos fel digonol. Roedd ymchwiliad dilynol wedi datgelu bod y farn gyffredinol ar gyfer Adnoddau Dynol pan oedd yr adroddiad ar archwilio mewnol Bloc 1 yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor fis Gorffennaf 2017, wedi'i ddangos yn gywir fel sylweddol. Roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol 2017/18 wedi'i gywiro felly ac wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor.

Ymddiheurodd y swyddogion eu bod wedi methu â gweld y gwall.

Gan groesawu bod yr adroddiad diwygiedig yn gywir, gofynnodd yr Aelodau sut oedd yr argymhelliad ynglŷn â'r angen i ddiweddarau'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn cael ei roi ar waith, a dywedodd y swyddogion y byddai'r archwilwyr mewnol yn dilyn hyn ymhellach ac yn adrodd ar y camau a gymerwyd fel rhan o'u gwaith yn y flwyddyn sydd i ddod.

NODWYD.

10. Adroddiad Perfformiad am y flwyddyn oedd yn diwedu ar 31 Mai 2018

Atgoffodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau bod y strwythur Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 yn amlygu strwythur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oedd â saith o amcanion llesiant. Roedd yr adroddiad perfformiad hefyd yn dilyn yr amcanion hyn, gydag adran ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mai, ac roedd gwaith eisoes wedi cychwyn ar y rhan fwyaf o'r camau gweithredu. Fodd



bynag, lle roedd data wedi'i gasglu bob chwarter, ni fyddai'r ystadegau ar gael tan ddiwedd mis Gorffennaf ac y byddai'r data felly yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Holodd yr Aelodau am hynt y gwaith o ddatblygu gwefan newydd, a dywedwyd wrthynt bod y tendr wedi'i hysbysebu ar GwerthwchiGymru gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau ddiwedd mis Gorffennaf. Roeddent hefyd yn falch o weld y gostyngiad yn yr ôl-groniad o achosion gorfodaeth cynllunio yn awr bod y tîm yn ôl i'w lawn nifer; ychwanegodd swyddogion bod rhai achosion gorfodaeth yn gymhleth, gan gymryd blynyddoedd i'w datrys, fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd y gwasanaeth yn hanfodol i hygredd y broses cynllunio.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad perfformiad.

11. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dîm Rheoli a gan Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod pan nodwyd y camau ymlaen a gymerwyd a'r newidiadau. Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr. Fodd bynnag nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo gydag Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod i werthuso'r lefelau o risgiau a glustnodir ar hyn o bryd.

NODWYD.

12. Perfformiad y Gyllideb

Eglurodd y Rheolwr Cyllid, oherwydd ei waith yn cau cyfrifon yr Awdurdod, a'r ffaith mai ond y bore hwnnw y cafodd llyfrau'r chwarter cyntaf eu cau, nad oedd wedi llunio adroddiad ar berfformiad y gyllideb am chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd wedi sylwi bod yr incwm wedi gostwng yn erbyn yr un cyfnod y llynedd, er bod yr incwm yn uwch yn erbyn y gyllideb. Roedd y refeniw meysydd parcio wedi parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, oedd yn golygu bod incwm a gynhychir yn lleol yn parhau i weithredu mewn amgylchedd cadarnhaol.

NODWYD.

13. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

